



Dyfarniad Hyfforddwr Padfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB Nodiadau'r Tiwtor

Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB

Nodiadau'r Tiwtor

Rhagarweiniad

Mae'r Nodiadau hyn i Diwtoriaid yn rhoi arweiniad penodol i ddarparwyr a thiwtoriaid ynghylch cyflwyno cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB.

Caiff y Nodiadau hyn i Diwtoriaid eu hategu gan y dogfennau canlynol:

- Canllaw Cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB
- Pecyn Datblygu Dysgwr Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB
- Canllawiau Asesu Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB
- Rhaglen Tiwtor a Chynlluniau Gwersi Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB

Rhaid cael caniatâd gan y Canolfannau Cyflwyno i weithredu y tu hwnt i'r canllawiau hyn.

Athroniaeth Addysgol Corff Dyfarnu Canwio Prydain

Mae Corff Dyfarnu Canwio Prydain yn credu mewn ymagwedd a arweinir gan gyfranogwr wrth greu a galluogi profiad y bydd pobl yn ei fwynhau, yn dysgu ohono ac yn datblygu ohono drwy chwaraeon padlo. Mae'r cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB wedi cael ei lunio i gefnogi hyfforddwr i ddarparu sesiynau chwaraeon padl diogel, diddorol sy'n grymuso ac sy'n hwyl, gan roi'r padlwr wrth wraidd y broses; gan hefyd feithrin ymdeimlad cymunedol ymysg padlwyr a chefnogi'r agweddau cymdeithasol cynhenid ar y gamp. Drwy'r ymagwedd hon, rydym yn gobeithio y bydd y padlwyr yn llwyddo ac yn dathlu'r llwyddiant (a hynny drwy ganolbwyntio ar y daith ei hun, ac nid ar ben y daith).

Dylai profiad yr hyfforddwr drwy'r llwybr cymhwyster fod yn ddiogel, yn ddiddorol ac yn hwyl hefyd; a dylai'r hyfforddwr allu llywio ei ddysgu a'i ddatblygu ei hun. Dylai ein tiwtoriaid gyflwyno'r rhaglen drwy ddefnyddio dull cynorthwyol a grymusol i feithrin angerdd byw am chwaraeon padlo yn ogystal â hyfforddi. Bodlonir anghenion unigolion drwy feithrin cymuned padlo a datblygu dealltwriaeth o'r amgylchedd y mae'r chwaraeon padlo yn cael eu cynnal ynddo a pharch tuag ato.

Cynnwys

Rhagarweiniad	2
Y Cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB	4
Gofynion Mynediad Ymgeiswyr	7
Cyflwyno'r Cwrs	9
Yr Efen Asesu	12
Gofynion Cyfleusterau ac Adnoddau	15
Polisiâu Ategol	16
Enwau ac Iaith y Cytunwyd arnynt ar gyfer y Cymhwyster Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB	17

Y Cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB

Lluniwyd y cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB i gefnogi padlwyr sydd â diddordeb mewn cyflwyno sesiynau rhagflas/cychwynnol SUP mewn amgylcheddau dŵr cysgodol iawn; mewn clybiau, canolfannau neu sefydliadau eraill.

Diffiniad o Ddŵr Cysgodol Iawn

Mae diffiniad Dŵr Cysgodol Iawn yn cynnwys:

- camlesi tawel gyda mynediad hawdd i mewn ac allan o'r glannau;
- llynnoedd bach, nad ydynt yn ddigon mawr, ac nad oes iddynt fannau glanio anodd, i broblemau godi os bydd newidiadau sydyn yn yr amodau;
- safleoedd penodol ar afonydd tawel ac araf;

Mae'r diffiniad yn awgrymu amodau arferol pan na fydd y tywydd yn ei hun yn debygol o achosi problemau. Rhoddir cyngor i fod yn ofalus pan fydd tymheredd y dŵr yn isel. Ni ddylai'r sawl sy'n padlo fod yn bellach na 50 metr o'r glannau ar unrhyw adeg.

Cynulleidfa

Rydym yn rhagweld y bydd y cymhwyster yn debygol o gael ei ddefnyddio gan:

- Hyfforddwyr mewn clybiau;
- Hyfforddwyr ar gyfer darparwyr/canolfannau sy'n cynnig gweithgareddau chwaraeon padlo;
- Hyfforddwyr mewn ysgolion, Gwobr Dug Caeredin, Grwpiau Ieuencid, Grwpiau Unffurf etc.

Mae'n bosibl mai hwn bydd cymhwyster cyntaf padlfyrddiwr sefyll. Rydym hefyd yn rhagweld y bydd deiliaid cymwysterau a dyfarniadau Corff Dyfarnu Canŵio Prydain yn ymgymryd â'r cwrs hwn er mwyn cefnogi eu dysgu, rhoi'r diweddaraf iddynt ar arferion gorau presennol neu gefnogi rolau neu anghenion newidiol y dysgwr. Rydym yn annog hyn (a dylid ei hyrwyddo).

Mae'r cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB yn cael ei gydnabod gan y Canolfannau Cyflwyno fel tystiolaeth ddilys o Ddatblygiad Personol Parhaus ar gyfer y Cynllun Diweddarau.

Niferoedd Staffio ac Ymgeiswyr

Y gymhareb staffio yw 1:6. Dylai'r holl gyrsiau Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll gael rhwng 4 ac 12 ymgeisydd.

Rhaid i'r tiwtor arweiniol¹ ymgymryd â rôl y Tiwtor Hyfforddwyr Padlfwrdd Sefyll. Ar gyfer cyrsiau sydd â rhwng 7 ac 12 ymgeisydd, rhaid i'r ail aelod o staff fod yn:

- Rôl Tiwtor Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll, **neu**
- Rôl Tiwtor Darpar Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll².

Y tiwtor arweiniol sy'n gyfrifol am ddewis ei ail aelod o staff a'i roi i weithio'n briodol, a rhaid i'r tiwtor roi dulliau cymorth a monitro priodol ar waith i sicrhau bod pob agwedd ar y rhaglen ddysgu yn cael ei chyflwyno'n briodol.

Awdurdodi'r Cwrs

Cyn cynnal cwrs Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll, rhaid i'r tiwtor arweiniol wneud cais am Awdurdodaeth ar gyfer y Cwrs drwy'r Ganolfan Gyflwyno. Os byddwch y bodloni'r gofynion perthnasol, byddwch yn cael gwybod y Rhif Awdurdodi'r Cwrs yn awtomatig. Dylai'r tiwtor arweiniol wirio'r amserlenni â'r Ganolfan Gyflwyno.

Hyd y Cwrs

Caiff y cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB ei gyflwyno dros o leiaf dau ddiwrnod a rhaid cynnwys o leiaf 15 awr o amser cyswllt addysgu/dysgu. Rhaid cwblhau cyrsiau modiwlaidd o fewn chwe wythnos.

Trefnu'r Cyrsiau

Gall cyrsiau gael eu trefnu gan y Canolfannau Cyflwyno, Tiwtoriaid Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll neu leoliadau cynnal. Gall ymgeiswyr neu sefydliadau hefyd drefnu cwrs unigol yn uniongyrchol â thiwtor cydnabyddedig.

¹ Tiwtor Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Arweiniol = Y tiwtor sydd ag awdurdodaeth ar gyfer y cwrs gan y Ganolfan Gyflwyno.

² Tiwtor Darpar Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll = unigolion sydd wedi gwneud cais ac sydd wedi cwblhau'r sesiwn ymgyfarwyddo.

Ofqual

Mae'r cymhwyster Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB ar Gofrestr Ofqual o Gymwysterau Rheoledig ar Lefel 1.

Recriwtio a Gwybodaeth Cyn y Cwrs

Mae'r tiwtor/tiwtorïaid a threfnwyr y cwrs yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau y neilltuir lle ar gyrsiau i'r ymgeiswyr cywir. Rhaid rhoi gwybodaeth a chyngor priodol cyn y cwrs i'r ymgeiswyr. Dylai hyn gynnwys:

- gwybodaeth am y cymhwyster/cwrs;
- gwybodaeth am gofrestru a chyfeirio at gwrs e-ddysgu Hyfforddwr BCAB;
- gwybodaeth am logisteg; e.e. y lleoliad, cyfarwyddiadau, amseru, cyfarpar, bwyd, etc;
- cyngor ar wybodaeth/sgiliau blaenorol y disgwylir ohonynt;
- cyngor penodol ar y sgiliau padlo personol/achub sydd eu hangen cyn y cwrs trwy ddarparu dolenni i'r rhestr wirio sgiliau a meini prawf asesu;
- gofyn am wybodaeth am unrhyw ofynion dysgu penodol;
- cyngor ar yr hyn sydd angen iddynt ddod ag ef i'r cwrs a'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar y safle;
- gwahodd ymgeiswyr i gysylltu os oes ganddynt unrhyw gwestiynau;
- amlinelliad o'r rhaglen;
- cyfeirio ymgeiswyr at wybodaeth am y tasgau asesu;
- manylion ynghylch polisi canslo'r cwrs.

Mae angen i'r tiwtoriaid hefyd gasglu gwybodaeth gan yr ymgeiswyr cyn y cwrs i'w galluogi i deilwra'r cwrs er mwyn diwallu anghenion unigol. Bydd hyn yn cynnwys clustnodi meysydd penodol o ddiddordeb ac unrhyw ofynion dysgu arbennig.

Mae'r Canllaw Cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB yn rhoi gwybodaeth am y cymhwyster, y gwaith paratoi sydd angen i'r ymgeiswyr ei wneud cyn mynychu'r cwrs a gwybodaeth benodol am y sgiliau lefel mynediad sydd eu hangen. Cynghorir darparwyr i dynnu sylw'r ymgeiswyr at y wybodaeth benodol hon cyn y cwrs. Dylai darparwyr hefyd fod yn barod i roi arweiniad unigol i ymgeiswyr ynghylch pa mor addas yw'r cwrs o ran eu hanghenion a'u sgiliau a gwybodaeth bresennol.

Gofynion Mynediad Ymgeiswyr

Mae'r gofynion mynediad i ymgeiswyr fel a ganlyn:

- Aelodaeth Lawn y Gymdeithas Genedlaethol;
- Cofrestriad â'r Ganolfan Gyflwyno;
- Cymhwysedd Padlo Personol ac Achub (gweler y [nodiadau isod](#));
- 14 oed neu hŷn.

Dylai darparwyr wirio pa mor addas yw unrhyw un dan 18 oed.

Mae'n gyfrifoldeb ar yr ymgeiswyr i sicrhau eu bod yn meddu ar y rhagofynion hyn. Bydd angen i ddarparwyr a thiwtoriaid roi gwiriadau priodol ar waith.

Cofrestru

Cyn mynychu cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB, mae angen i ymgeiswyr gofrestru gyda'u Canolfan Gyflwyno. Argymhellir bod ymgeiswyr yn caniatáu o leiaf 1 wythnos cyn bwriadu dechrau'r cwrs i brosesu'r cofrestru ac anfon adnoddau atynt. Mae cofrestru yn cadarnhau bod yr ymgeisydd yn bodloni'r rhagofynion ac yn cadarnhau ei fwriad i astudio tuag at y dyfarniad hwn. Mae cofrestru hefyd yn rhoi mynediad at amrywiaeth o ddeunyddiau electronig perthnasol i'r ymgeiswyr, gan gynnwys y canlynol:

- Cardiau Gweithgaredd Hyfforddwr BCAB
- Cardiau Gemau Hyfforddwr BCAB

Yr hyn i'w wneud os bydd ymgeisydd yn cyrraedd heb fod wedi'i gofrestru

Mae'r cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB yn ddyfarniad lefel mynediad a dylwn geisio annog hyfforddwyr newydd cymaint â phosibl. Rhaid i drefnwyr cwrs a thiwtoriaid wneud eu gorau i sicrhau bod ymgeiswyr wedi cofrestru gyda'r Ganolfan Gyflwyno. Fodd bynnag, os bydd ymgeisydd yn cyrraedd heb wneud hynny, y tiwtor arweiniol sy'n penderfynu a ddylid derbyn yr ymgeisydd ar y cwrs neu beidio.

Os bydd yr ymgeisydd yn cael ei dderbyn ar y cwrs, rhaid i'r Ganolfan Gyflwyno brosesu ei gofrestriad cyn (neu ynghyd â) proses diwedd y cwrs. Sylwer na fydd Corff Dyfarnu Canwio Prydain yn derbyn unrhyw geisiadau am ardystiad sy'n dod i

law 60 diwrnod ar ôl y dyddiad asesu ymarferol cychwynnol. Bydd ceisiadau am ardstiad ar ôl y cyfnod hwn yn cael eu gwrthod.

Os nad yw ymgeisydd wedi cofrestru, rhaid i'r tiwtor arweiniol sicrhau'r canlynol:

- bod gan yr holl ymgeiswyr gopi o'r manylion cwrs angenrheidiol;
- bod gan yr holl ymgeiswyr yswiriant atebolrwydd sifil sy'n cynnwys gweithgareddau chwaraeon padlo;
- bod gan yr holl ymgeiswyr y lefel briodol o sgiliau personol a sgiliau diogelwch ac achub.

Sgiliau Padlo Personol ac Achub

Mae'r Canllaw Cwrs a'r Canllawiau Asesu Dyfarniad Hyfforddwr Padlwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB yn rhoi gwybodaeth benodol am y safon ofynnol.

Mae'r cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB wedi cael ei gynllunio ar sail y ffaith bod gan yr ymgeisydd y sgiliau personol ac achub angenrheidiol cyn dechrau'r cwrs. Asesir yr elfennau hyn yn ystod y cwrs (ond nid ydynt yn cael eu dysgu).

Nid yw er lles gorau'r ymgeisydd i fynychu'r cwrs heb fodloni'r gofynion hyn. Mae'n gyfrifoldeb ar y tiwtor i sicrhau bod y cwrs yn addas i'r ymgeisydd o ystyried ei sgiliau personol ac achub. Bydd hyn yn sicrhau bod ganddynt bob cyfle i gwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus ac mae'n hanfodol i ddiogelwch ac ansawdd dysgu pawb sy'n mynychu'r cwrs.

Mae'n bosibl y bydd darparwyr yn dymuno cynnig hyfforddiant ychwanegol ar sgiliau padlo personol ac achub fel rhan o amserlen gyffredinol eu cwrs.

Oedran

Os bydd darparwyr yn dewis caniatáu padlwyr dan 18 oed i fynychu'r cwrs, rhaid gweithredu mesurau diogelu priodol a rhoi ystyriaeth briodol i'r cyfrifoldebau cyfreithiol pellach.

Cyflwyno'r Cwrs

Mae'r Rhaglen Tiwtor a Chynlluniau Gwersi Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB yn rhoi canllawiau ar raglen y cwrs a'r gwaith o gyflwyno'r gwersi cysylltiedig.

Rhaid cael caniatâd gan y Ganolfan Gyflwyno berthnasol i weithredu y tu hwnt i'r canllawiau hyn.

Er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn cael ei anelu ar y lefel gywir, rhaid i diwtoriaid fod yn gyfarwydd â Chanllawiau Asesu ac e-ddysgu Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB hefyd. Bydd y ddau hyn yn helpu'r tiwtor i integreiddio a chyflwyno cynnwys priodol wrth gynnal eu rhaglen.

Lleoliad ac Adnoddau

Mae angen i'r cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB gael mynediad hawdd a chyflym i o leiaf un lleoliad **Dŵr Cysgodol lawn** (gweler y [diffiniad](#)) lle mae'n bosibl ymgymryd â thaith fer syml.

15 munud yw'r cyfnod hiraf yr ystyrir yn dderbyniol o ran teithio mewn cerbyd o'r ystafell ddosbarth i'r lleoliad dŵr. Mae'n fanteisiol defnyddio lleoliadau lle nad oes angen llwytho a dadlwytho'r byrddau ar gyfer pob sesiwn.

Rhaid cael ystafell ddosbarth â chadeiriau/byrddau a defnydd o adnoddau clyweledol. Mae angen safle dan do ar ddechrau a diwedd bob dydd er mwyn cyflwyno'r elfennau hyn o'r rhaglen ddysgu.

Bydd angen amrywiaeth o adnoddau i chwarae gemau a chefnogi gweithgareddau ymarferol, ynghyd ag amrywiaeth o adnoddau dysgu ar lefel briodol, mewn amrywiaeth o fformatau, i gefnogi ymgeiswyr gyda gwahanol feysydd y maes llafur.

Byrddau

Dylid dewis SUPs sefydlog y gellir dysgu i'w rheoli'n gyflym yn gyffredinol, gan eu bod yn fwy addas ar gyfer sesiynau rhagflas/cychwynnol SUP lle mae'r pwyslais ar 'padlo' yn hytrach na 'dysgu padlo'.

Noder nad yw byrddau bordhwylio'n cael eu hystyried yn ddewis amgen priodol i badlfyrddau sefyll.

Myfyrwyr Ffug

Gan amlaf, nid oes angen myfyrwyr ffug.

Yn ystod y cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB, rhoddir cyfle i ymgeiswyr ymarfer eu sgiliau hyfforddi. Caiff ei hwyluso fel gwaith cyfoedion.

Canslo Cyrsiau

Rhaid rhybuddio ymgeiswyr y gallai cyrsiau gael eu canslo os nad yw'r amodau'n addas; rhaid cyfathrebu'r polisi canslo cyrsiau yn glir.

Fe'i hystyrir yn ddigwyddiad anarferol petai gwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB yn cael ei ganslo yn sgil amodau tywydd/amgylcheddol amhriodol. Fel arweiniad, dylai cyrsiau ddefnyddio lleoliadau mewn amodau sy'n addas i'r Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll gyflwyno sesiynau rhagflas/cychwynnol.

Dylai'r cyrsiau gael eu cynllunio mewn lleoliadau, ac ar adegau'r flwyddyn lle mae'r amodau priodol yn fwyaf tebygol. Dylai'r tiwtoriaid wneud eu gorau i ddarparu profiad dysgu perthnasol/o safon; dim ond pan fydd y dewisiadau wedi'u cyfyngu gormod yn sgil amodau eithriadol y dylid canslo cwrs.

Proses ar Ddiwedd y Cwrs

Yn syth ar ôl y cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB, rhaid i'r tiwtor arweiniol gwblhau'r **broses Canlyniadau'r Cwrs** a thalu'r **ffioedd** gofynnol i'w Canolfan Gyflwyno.

Ar ôl i'r canlyniadau gael eu dychwelyd i'r Ganolfan Gyflwyno, byddant yn cael eu dilysu ac yn cael eu trosglwyddo i Gorff Dyfarnu Canwio Prydain i'w hardystio lle bo hynny'n briodol. Rhaid i diwtoriaid sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r broses ar ddiwedd y cwrs, y ffioedd a'r amserlenni gofynnol.

Adborth Diwedd y Cwrs

Rhaid i ddarparwyr a thiwtoriaid gasglu, a gweithredu ar, adborth gan ymgeiswyr ynghylch ansawdd y cwrs. Dylid cadw tystiolaeth o hyn at ddibenion sicrhau ansawdd.

Adborth i Ganolfannau Cyflwyno

Anogir darparwyr a thiwtoriaid i ddarparu adborth ysgrifenedig i'w Canolfan Gyflwyno ynglŷn ag unrhyw faterion a allai helpu o ran datblygiad cyffredinol y dyfarniadau.

Dylid cyflwyno adborth i Swyddog Cyfrifol y Ganolfan Gyflwyno.

Yr Eifen Asesu

Er mwyn meddu ar y cymhwyster Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB, rhaid i ymgeiswyr gwblhau nifer o dasgau asesu'n llwyddiannus drwy gydol y cwrs. Cânt eu crynhoi yn y Pecyn Datblygu Dysgwr a'u hegluro ymhellach yn y Canllawiau Asesu cysylltiedig.

Rhaid i aseswyr ddarparu arweiniad clir i ymgeiswyr ynghylch y broses asesu a'r broses o gwblhau'r tasgau amrywiol, gan gynnwys:

- yr hyn y mae angen i'r ymgeiswyr ei wneud;
- y rhaglen asesu;
- y meini prawf asesu perthnasol;
- y dulliau asesu;
- pryd fydd yr ymgeiswyr yn cael adborth;

Cyfrifoldebau'r Aseswr

Mae'r holl aseswyr yn gyfrifol am:

- reoli'r broses asesu, y dystiolaeth ymarferol ac ysgrifenedig, o gynllunio'r asesiad i wneud a chofnodi penderfyniadau asesu;
- asesu tystiolaeth o wybodaeth, dealltwriaeth a chymhwysedd yr ymgeiswyr yn ôl y safonau a nodwyd yn y Canllawiau Asesu a barnu perfformiad yr ymgeiswyr yn eu hasesiadau yn ddibynadwy;
- sicrhau dilysrwydd a digonolrwydd y dystiolaeth asesu y mae'r ymgeiswyr yn ei chyflwyno;
- egluro unrhyw wendidau yn y dystiolaeth asesu a gyflwynir ac egluro i'r ymgeisydd sut y gellir eu datrys;
- bod mor anamlwg ag sy'n ymarferol posibl yn ystod yr asesiad;
- rhoi a chofnodi adborth arfarnol, ffurfiannol a chyfunol cyn gynted â phosibl;
- cadarnhau llwyddiant i'r ymgeisydd cyn gynted â'i fod wedi dangos cymhwysedd yn ôl yr holl ddeilliannau penodol;
- cytuno ar gamau pellach i'w cymryd â'r ymgeisydd yn ôl yr angen;
- cynnal asesiad mewn modd sy'n cydymffurfio â'r egwyddorion cyfleoedd cyfartal a nodwyd gan Gorff Dyfarnu Canwio Prydain a'u Canolfan Gyflwyno;
- cynnal cofnodion asesu cywir y gellir eu dilysu ar gyfer pob ymgeisydd;

- cwblhau'r prosesau angenrheidiol.

Y Prif Alluoedd a Ddisgwylir gan Aseswyr

Dylai'r aseswyr feddu ar y cymwysterau priodol a bod yn fedrus yn alwedigaethol.

Rhaid bodloni'r gofynion sylfaenol canlynol:

- dal y rôl aseswr berthnasol o fewn eu Canolfan Gyflwyno;
- gallu rhoi tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth am holl feysydd yn y maes llafur, a thystiolaeth o fod wedi rhoi hynny ar waith, a hynny ar y lefel gywir;
- gallu dangos cymhwysedd technegol;
- gallu dangos cymhwysedd wrth asesu holl feysydd y maes llafur;
- bod yn gyfarwydd â'r canllawiau a'r gofynion mewn perthynas â chynnal asesiadau, cofnodi penderfyniadau asesu a chynnal cofnodion asesu ymgeiswyr;
- gallu defnyddio iaith blaen nad yw'n cynnwys tuedd ac sy'n briodol i'n cymwysterau a dyfarniadau chwaraeon padlo;
- ymrwymo i gyfleoedd cyfartal wrth asesu a meddu ar y gallu i drosi'r ymrwymiad hwn yn arfer;

Rhaid i aseswyr sicrhau bod y prosesau angenrheidiol yn cael eu cwblhau'n gywir, yn gyfredol, yn cael eu storio'n ddiogel, ac ar gael i'w gwirio yn fewnol neu'n allanol tra bydd ymgeiswyr ar y cyrsiau.

Canllawiau ynghylch Gweithio gyda Pherthnasau Agos neu Weithwyr

Ni chaiff aseswyr asesu teulu na ffrindiau agos.

Dylai aseswyr osgoi, lle bo'n ymarferol, asesu cydweithwyr neu gyflogeion. Os na ellir osgoi hyn, rhaid ceisio caniatâd gan Reolwr y Ganolfan Gyflwyno berthnasol yn gyntaf. Rhaid bod yn fwy gwyliadwrus wrth sicrhau bod dyfarnu tystiolaeth ymgeiswyr yn cael ei wneud yn ddibynadwy, yn deg ac yn gywir.

Ymddiriedir mewn darparwyr i gynnal asesiadau staffio fel y gall ymgeiswyr gael eu hasesu'n deg ac yn ddiduedd, gan osgoi gwrthdaro buddiannau cymaint â phosibl.

Tasgau a Gofynion yr Asesiad

Ceir manylion ynghylch y tasgau a'r gofynion yn y Pecyn Datblygu Dysgwr a Chanllawiau Asesu Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB.

Tasgau Asesu Heb eu Cwblhau

Os nad yw ymgeisydd yn cwblhau elfen sydd ei hangen ar gyfer yr ardystiad erbyn diwedd y cwrs asesu, mae dau ganlyniad posibl:

1. Yn y mwyafrif o achosion, byddai angen i'r ymgeisydd ail-wneud holl elfennau o'r asesiad ar gwrs yn y dyfodol.
2. Fel arall, gall yr ymgeisydd weithio gyda'r un darparwr i ddod ag elfennau'r asesiad i ben; a gall yr aseswr roi cyfleoedd pellach i'r ymgeisydd ddangos cymhwysedd yn yr elfen benodol/elfennau penodol yn ôl yr angen. Os dewisir yr opsiwn hwn, rhaid iddo ddod i ben o fewn dau fis. **Sylwer na fydd Corff Dyfarnu Canwio Prydain yn derbyn unrhyw geisiadau am ardystiad sy'n dod i law 60 diwrnod ar ôl y dyddiad cwrs cychwynnol.** Bydd ceisiadau am ardystiad ar ôl y cyfnod hwn yn cael eu gwrthod.

Yn y ddau achos, rhaid dychwelyd Canlyniadau'r Cwrs i'r Ganolfan Gyflwyno ar ddiwedd y cwrs cychwynnol, gan nodi'r canlyniad 'ddim yn argymell'. Mae'r asesiad dilynol yn amodol ar rif Awdurdodi Cwrs newydd.

Nid oes cyfyngiad i nifer y weithiau y gall yr ymgeisydd gael ei asesu; er bod gan diwtoriaid ac aseswyr ddyletswydd i sicrhau bod yr ymgeisydd yn derbyn cyngor cadarn i gefnogi ei ddatblygiad a'i waith paratoi ar gyfer asesiadau llwyddiannus; dylai methu'r asesiadau nifer o weithiau ddigwydd yn anaml iawn yn unig.

Gofynion Cyfleusterau ac Adnoddau

Mae defnyddio cyfleusterau ac adnoddau priodol yn elfen hanfodol o ddarparu cwrs o safon:

- rhaid darparu amgylchedd gweithredol priodol a diogel ar gyfer holl elfennau o'r cwrs, gan roi sylw i ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol;
- rhaid gwneud ymgeiswyr yn ymwybodol o'r disgwyliadau er mwyn sicrhau arferion diogel ac amgylchedd dysgu a/neu asesu effeithiol;
- rhaid i ymgeiswyr wisgo/defnyddio dillad a chyfarpar addas ar gyfer yr holl weithgareddau ymarferol, fel y nodir yn yr asesiad risg penodol ac yn unol â'r arferion gorau cyfredol;
- rhaid i'r holl weithgareddau fodloni gofynion arferion da a dderbyniwyd, fel yr amlinellwyd yn '[Diffiniadau Amgylcheddol a Chanllawiau i Drefnwyr, Hyfforddwyr ac Arweinwyr](#)' Corff Dyfarnu Canwio Prydain;
- rhaid gweithredu asesiadau risg a strategaethau rheoli risg priodol drwy gydol yr holl weithgareddau;
- rhaid i'r adnoddau corfforol fod o safon y diwydiant;
- rhaid i'r holl staff fod yn gwbl gyfarwydd â'r arferion gorau a'r safonau presennol sy'n berthnasol i'r cymhwyster;
- mae angen i drefnwyr y cwrs a thiworiaid ystyried yn ofalus addasrwydd y lleoliad sydd wedi'i ddewis er mwyn sicrhau y gellir cynnal hyfforddiant/asesiad cadarn;
- rhaid gwneud trefniadau priodol o ran tai bach, cyfleusterau newid a chawodydd, a'u cyfathrebu'n glir i'r ymgeiswyr;
- rhaid bod gan y lleoliadau amodau o ran pa fan, golau a thymheredd sy'n addas ar gyfer anghenion yr ymgeiswyr;
- rhaid i'r lleoliadau a ddefnyddir fod yn hygyrch i'r holl ymgeiswyr (yn unol â'r ddeddfwriaeth briodol)

Polisiau Ategol

Rhaid i diwtoriaid gael mynediad i bolisiau ategol perthnasol, ymgylfarwyddo â nhw a chefnogi'r broses o'u rhoi ar waith, fel y nodir yng Nghanllaw Cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB, gan gynnwys:

- Gweithdrefnau Apêl ac Ymholiadau;
- Gweithdrefnau Cwyno
- Polisi Cyfle Cyfartal ar gyfer Tegwch a Mynediad i Asesiad;
- Polisi Ystyriaethau Arbennig;
- Addasiadau Rhesymol ar gyfer Dyfarniadau a Hyfforddiant Chwaraeon Padlo;
- Camymarfer a Chamweinyddu.

Ym mhob achos, **rhaid** i aseswyr gyfeirio'r ymgeiswyr aflwyddiannus at y Weithdrefn Apelio.

Sicrhau Ansawdd (QA) a Gwiriad Mewnol (IV)

Mae gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd a Gwiriad Mewnol y Ganolfan Gyflwyno yn monitro ac yn cefnogi sgiliau hyfforddi, cyflwyno'r rhaglen ac asesu. Fel rhan o ofynion y broses Sicrhau Ansawdd a Gwiriad Mewnol, rhaid i diwtoriaid ganiatáu mynediad i'r holl safle, cofnodion, gwybodaeth, ymgeiswyr, a staff (yn benodol mewn perthynas â darparu cyrsiau Corff Dyfarnu Canwio Prydain). Efallai y bydd angen mynediad gan Swyddogion Sicrhau Ansawdd/Gwiriad Mewnol y Ganolfan Gyflwyno, neu Werthuswyr Allanol Corff Dyfarnu Canwio Prydain.

Enwau ac Iaith y Cytunwyd arnynt ar gyfer y Cymhwyster Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB

Mae'r adran hon yn amlinellu'r derminoleg i'w defnyddio wrth hysbysebu neu hyrwyddo cyrsiau Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB.

Defnyddir *italig* i nodi'r derminoleg, yr iaith a'r enwau y cytunwyd i'w defnyddio.

Enw'r Cymhwyster

*Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Corff Dyfarnu Canwio Prydain**

*** Defnyddio 'Corff Dyfarnu Canwio Prydain' / 'BCAB'**

Dylid cynnwys yr enw *Corff Dyfarnu Canwio Prydain* cyn enw'r cymhwyster, yn unol â'r canllawiau canlynol:

- cynnwys '*Corff Dyfarnu Canwio Prydain*' os nad yw'r cyd-destun yn gwneud Corff Dyfarnu Canwio Prydain yn amlwg;
- peidio â chynnwys '*Corff Dyfarnu Canwio Prydain*' os yw'n ymddangos o dan deitl Corff Dyfarnu Canwio Prydain;

Mae'r egwyddor hon yn berthnasol i'r holl derminoleg.

Enw'r Gyfres o Gymwysterau a Dyfarniadau Corff Dyfarnu Canwio Prydain

Mae'r *Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll* yn rhan o'r gyfres o ddyfarniadau y cyfeirir atynt fel *Cymwysterau a Dyfarniadau Hyfforddi Corff Dyfarnu Canwio Prydain*. Mae hyn yn cynnwys yr holl Ddyfarniadau (neu Gymwysterau). Os ydych yn dymuno cynnwys y Dyfarniadau Arwain, dylech ddefnyddio; *Cymwysterau Hyfforddi ac Arwain Corff Dyfarnu Canwio Prydain*.

Cwrs Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll

Defnyddiwch '*Cwrs Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll*'.

Gellir defnyddio Padlfyrddio hefyd o fewn hyrwyddiad y cymhwyster hwn, ond ni ellir newid teitl y cymhwyster.